# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-11-06(p2)

**Dyddiad: Dydd Iau 6 Gorffennaf 2006**
**Amser: 9.30am tan 12.30pm**
**Lleoliad: Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth White Rose, Tredegar Newydd**

## Teitl: Cylch Cynllunio Cyllideb 2006

### Diben

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau sydd gennyf ar y gweill o dan Gylch Cynllunio Cyllideb 2006 yn y cyllidebau sy'n rhan o bortffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae'n ceisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar y blaenoriaethau hyn fel y'u nodir yn llythyr y Gweinidog Cyllid at Weinidogion y Cabinet dyddiedig 9 Mai 2006.

### Amserlen

Er mwyn bodloni'r amserlen ar gyfer y Cylch hwn a osodwyd gan y Gweinidog Cyllid, bydd angen i'r Pwyllgor nodi ei safbwyntiau erbyn 7 Gorffennaf 2006.

### Y Cefndir

Mae'r Gweinidog Cyllid wedi egluro mai adnoddau cyfyngedig iawn yn unig sydd ar gael ar gyfer 2007-08 a 2008-09 ac mae wedi gwahodd cynigion a fyddai ond yn bodloni unrhyw raglen anochel ac unrhyw bwysau cyfalaf. Nodir y cynigion isod yng nghyd-destun y cyfyngiadau sy'n berthnasol i gylch cynllunio cyllideb eleni.

### Pwysau Anochel - Rhaglen (Refeniw)

Dyma'r pwysau anochel a nodwyd gennyf:

Gwasanaethau Trin Camddefnyddio Sylweddau Bydd cyfran helaeth o Linell Wariant Cyllideb y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (Refeniw) yn mynd i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn ariannu'r gwaith o gomisiynu lleoliadau i drin y rhai sy'n gaeth i gyffuriau a/neu alcohol. Mae cost y contractau ag Ymddiriedolaeth'r GIG a darparwyr sector cyhoeddus yn codi gan fod cyfran mor fawr o'r costau yn ymwneud â chyflogau. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno ein Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio, ond nid yw'r elfen hon

o'r Gwasanaeth Iechyd yn dal i gael digon o gyllid. Nodwyd hyn y glir yn yr adolygiad diweddar o'r Strategaeth gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Bydd methu â bodloni'r costau anochel hyn yn arwain at lai o wasanaethau; cynnydd yn yr amseroedd a rhestrau aros; a cholli staff hyfforddedig o'r sector camddefnyddio sylweddau.

Cefnogi Pobl Mae toriadau gan y Trysorlys o un flwyddyn i'r llall wedi effeithio ar y gyllideb hon, ac o ganlyniad, ar y gwasanaethau i'r bobl hynny sy'n agored i niwed y bwriedir eu cefnogi i fyw yn annibynnol.

Yn 2004-05 torrwyd £1 miliwn ar y cyllid, gan arwain at gyllideb o £141.8 miliwn. Fodd bynnag torrwyd mwy o lawer ar y cyllid yn 2005-06, i dros £13 miliwn, gan olygu cyllideb o £128.5 miliwn. Cynigiwyd toriad pellach ar gyfer 2006-07 i gwtogi'r gyllideb i £126 miliwn. Fodd bynnag, er mwyn osgoi hyn, rwyf wedi nodi adnoddau o fewn Prif Grwp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ynghyd â chyflwyno system dariff ddiwygiedig Grant Refeniw Tai â Chymorth, sydd wedi arwain at ddiogelu'r gyllideb bresennol, a galluogi twf bach yn unol â chwyddiant gyda chyllideb derfynol o £129.1 miliwn.

Mae gan ddarparwyr tai â chymorth bwysau anochel o ran costau a byddem yn hoffi cynnal gwasanaethau yn y maes hwn.

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio i alluogi pobl hyn ac anabl i aros yn eu cartrefi drwy gynnig addasiadau i'w tai, yn ogystal â bod yn adnodd allweddol i sicrhau'r incwm mwyaf o ran buddiannau i'r henoed.

Canolfannau cyswllt a oruchwylir a rhaglenni rhianta Bydd y Mesur Plant a Mabwysiadu yn ei gwneud yn ofynnol i CAFCASS CYMRU fodloni a chyflawni dyletswyddau statudol newydd arwyddocaol y tu hwnt i'r dyletswyddau sydd eisoes yn cael eu bodloni.

Cyswllt tân Fel y gwyr y Pwyllgor, rydym wedi cytuno ar gontract i gael system gyfathrebu newydd a fydd yn sicrhau'r gallu i ryngweithredu rhwng y gwasanaethau brys yn ogystal â rhwydwaith radio gwell ar gyfer y gwasanaeth tân. Mae'r contract yn seiliedig ar refeniw a bydd y costau yn fwy na'r cyllid a ddatganolwyd gyda'r gwasanaeth.

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Mae hwn yn gynllun llwyddiannus iawn sy'n ariannu cyfleusterau a gweithgareddau mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Ar hyn o bryd mae'r galw'n fwy o lawer na'r arian sydd ar gael. Mae fy nyraniad refeniw eisoes wedi'i ymrwymo'n llawn hyd at ddiwedd 2007-08. Rwyf wedi gorfod atal unrhyw gylchoedd cynnig am refeniw am y dyfodol rhagweladwy. Ar gyfer y cylch cynnig mwyaf diweddar, sydd ar gyfer prosiectau cyfalaf yn unig, cafodd fy swyddogion gynigion gwerth dros dair gwaith y swm sydd ar gael.

Er nad yw'n wir anochel, mae angen cyllid i ddatblygu ymhellach y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid. Mae hon yn strategaeth drawsbynciol sy'n lleddfu sefyllfa grwp o bobl sy'n arbennig o agored i niwed. Mae'r camau gweithredu'n cael eu paratoi ar hyn o bryd, ond dylai

fy nghynnig gyflwyno peth o'r gwaith yn y lle cyntaf.

## Pwysau Anochel - Cyfalaf

Grant Cyfleusterau i'r Anabl i dalu am gostau cael gwared ar brawf modd ar rieni plant anabl fis Hydref diwethaf.

Cyfraniadau'r Trysorlys Tai Taliad yw hwn i awdurdodau lleol am gyfraniadau taliadau benthyciadau tai diffygiol, sydd bellach yn un o gyfrifoldebau fy mhortffolio i.

Troseddwyr Ifanc Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ddatblygu lleoedd ychwanegol yng Nghymru i letya troseddwyr ifanc. Ar hyn o bryd dim ond 50 o leoliadau diogel sydd yng Nghymru ar gyfer troseddwyr ifanc. Mae hyn yn golygu bod tua 130 o bobl ifanc o Gymru yn cael eu cadw mewn sefydliadau yn Lloegr ar unrhyw adeg. Mae'n flaenoriaeth gennyf i ddatblygu lleoedd diogel yng Ngogledd Cymru ar gyfer y troseddwyr ifanc sydd fwyaf agored i niwed. Bydd datblygu cyfleuster o'r fath yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag awdurdod lleol neu asiantaeth sector gwirfoddol.

Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Mae tai fforddiadwy yn fater sy'n cael mwy a mwy o sylw. Er fy mod yn cymryd nifer o fesurau i alluogi ac annog awdurdodau lleol i wneud y mwyaf o'u mewnbwn drwy werthu tai yn eu meddiant a defnyddio cytundebau S.106 drwy gynllunio, mae darparu cartrefi ychwanegol yn digwydd yn bennaf drwy'r Rhalgen Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r symudiad Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn gweithio drwy gonsortia sydd newydd eu ffurfio i gyflwyno enillion effeithlonrwydd yr Adran yn Creu'r Cysylltiadau; fodd bynnag, mae cost gynyddol adeiladu yn golygu eu bod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol ond eu bod yn cael eu erydu gan y gyfradd chwyddiant mewn costau adeiladu, sy'n uwch na'r cyfartaledd.

Grant Tai Cymdeithasol Wanless i gefnogi'r rhaglen sy'n darparu tai gofal ychwanegol i'r boblogaeth henoed sy'n cynyddu. Mae hon yn rhaglen drawsbynciol, sy'n arbed adnoddau yng nghyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi ei safbwyntiau ar y cynigion uchod ar gyfer 2007-08 a 2008-09.

## Edwina Hart AC MBE

## Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Pwynt Cyswllt: Emyr Roberts, Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.